

2016 Rhif 1038 (Cy. 246)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

2016 Rhif 1038 (Cy. 246)

Gwnaed 12 Hydref 2016

Yn dod i rym 18 Hydref 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a’i wahardd ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i’r cyhoedd ar y ffordd, neu gerllaw iddi, yn ystod ymarferion argyfwng a diogelwch hanfodol cyfnodol.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Hydref 2016, a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2016.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r ymarferion sy’n arwain at y Gorchymyn hwn; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llw awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb,

neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol: neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr “cyfnod yr ymarfer” (“*exercise period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau rhwng 01:00 a 06:00 rhwng 18 Hydref a 20 Hydref ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod ymarfer eu symud ymaith;

ystyr “y darn(au) o’r gefnffordd” (“*the length(s) of the trunk road*”) yw’r darnau hynny o’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 4 i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarfer, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarfer, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarfer, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarfer, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal o’r fath gael ei reidio ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarfer, gerdded ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

Atal Dros Dro

8. Mae unrhyw ddarpariaeth statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn(au) perthnasol o’r

gefnffordd a bennir yn erthygl 2 drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

Cymhwys

9. (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

12 Hydref 2016

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbyffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 17 (trosbont Cyfnewidfa Morfa Conwy) drwy Dwnnel Conwy hyd at ddechrau trwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

Y darn o gerbyffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 18 (Cyfnewidfa

Cyffordd Llandudno) drwy Dwnnel Conwy hyd at ddechrau trwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17.

Y darnau cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin, a ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy).

Y darnau cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin a ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy).

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

ATODLEN 3

Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont cyfnewidfa Cyffordd 17 hyd at bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol twnnel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ddechrau trwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 am bellter o 250 o fetrau tua'r dwyrain.

ATODLEN 4

Gwahardd seiclwyr a cherddwyr dros dro

Y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n ymestyn o bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r Dwyrain, gan gynnwys y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n cydffinio â ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 17, hyd at ei bentan â'r A457 ar ddiwedd y ffordd ymadael honno.